**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Cynllunio

**Dyddiad y Cyfarfod:** 15 Hydref 2014

**Aelod/Swyddog Arweiniol:** Y Cyng. David Smith, Parth Cyhoeddus
Angela Loftus, Rheolwr Polisi Datblygu a Chynllunio

**Awdur yr Adroddiad:** Angela Loftus, Rheolwr Polisi Datblygu a Chynllunio

**Teitl:** Datganiad Sefyllfa: Banc Tir Mwynau yn Sir Ddinbych

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych (CDLl) ei lunio gan ddefnyddio tystiolaeth wedi'i ddarparu gan Ddatganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru (DTRh). Ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol wedi cael ei adolygu ac mae Adolygiad 1af y Datganiad Technegol Rhanbarthol wedi'i gyhoeddi. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Llythyr Egluro Polisi, CL-04-14, sy'n ymateb i gyhoeddiad Adolygiad 1af o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ac mae'r adroddiad hwn yn ystyried goblygiadau'r dogfennau hyn ar Gynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Cytuno ar ddatganiad o'r sefyllfa o ganlyniad i gyhoeddiad yr Adolygiad 1af o'r DTRh a Llythyr Eglurhad CL-04-14 i ddangos ymrwymiad Sir Ddinbych i gyfrannu at y galw am fwynau, yn unol â pharagraff 11 o Bolisi Cynllunio Mwynau Cymru.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod yr Aelodau'n cytuno ar y datganiad sefyllfa a argymhellir wedi'i gynnwys ym mharagraff 5.1 o'r adroddiad hwn.

## 4. Manylion am yr adroddiad

4.1 Mae paragraff 11 o Bolisi Cynllunio Mwynau Cymru, yn mynnu y dylai pob Awdurdod Cynllunio Mwynau sicrhau fod cyfraniad priodol yn cael ei wneud yn ei gynllun datblygu i gwrdd â'r anghenion am fwynau yn lleol, rhanbarthol ac ar draws y DU. Mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau yn mynd ymlaen i nodi'r angen am o leiaf 10 mlynedd o fanc tir o gerrig mâl a lleiafswm o fanc tir am 7 mlynedd ar gyfer tywod a graean a dylid eu cynnal ar gyfer holl gyfnod y cynlluniau datblygu. Fel rhan o sefydlu lefel y galw am agregau, mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (NCTM) 1 yn ei gwneud yn ofynnol i lunio Datganiad Technegol Rhanbarthol, a dylai'r rhannau perthnasol gael eu hymgorffori yn y cynlluniau datblygu.

4.2 Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych ei lunio gan ddefnyddio'r Datganiad Technegol Rhanbarthol a gyhoeddwyd yn 2009 a oedd yn argymell nad oedd angen unrhyw adnoddau creigiau ar hyn o bryd (sic) a bod dyraniad o 1.0 miliwn tunnell (Mt) o dywod a graean ar gyfer cyfnod sy'n o leiaf 12 mlynedd yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mewn ymateb i Ddatganiad Technegol Rhanbarthol roedd y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys nodi Ardal a Ffefrir, a ddynodir o dan bolisi ABCh 17, lle caniateir ceisiadau i echdynnu hyd at 1 miliwn tunnell o dywod a graeanu, gan gymryd i ystyriaeth y lefel o angen a nodwyd yn ôl ffigyrau dosraniad y Gweithgor Agregau Rhanbarthol.

4.3 Ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych ym Mehefin 2013, fe gynhaliodd Gweithgor Agregau Gogledd Cymru adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol, gan arwain at gyhoeddi Adolygiad 1af o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar 1 Awst 2014. Mae Adolygiad 1af o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn cynnwys nifer o argymhellion ar gyfer pob awdurdod lleol a oedd mewn rhai achosion, yn wahanol i'r rhai a geir yn Natganiad Technegol Rhanbarthol 2009. Y cyngor i Sir Ddinbych yw y dylai dyraniadau newydd gwerth 2.2 miliwn ar gyfer tywod a graean a 0.8 miliwn ar gyfer cerrig mâl gael eu nodi yn y Cynllun Datblygu Lleol.

4.4 Mae Adolygiad 1af y DTRh yn nodi'r angen am agregau tir cynradd dros gyfnod o 25 mlynedd, tan 2036. Mae hyn oherwydd yr angen i sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn gwneud darpariaeth ddigonol trwy gydol holl gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol. Mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 yn nodi *"Banc tir o gerrig mâl am o leiaf 10 mlynedd a banc tir am leiafswm o 7 mlynedd ar gyfer tywod a graean.... yn cael ei gynnal ar gyfer holl gyfnod y cynllun.........Lle mae banciau tir sydd eisoes wedi'u defnyddio am fwy na 20 mlynedd er mwyn echdynnu agregau ni fydd angen gwneud dyraniadau newydd yn y cynlluniau datblygu."* Pan gafodd Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 ei ysgrifennu, rhagdybiwyd y byddai cyfnod y cynllun yn 10 mlynedd o hyd.

4.5 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Llythyr Egluro Polisi, CL-04-14 ar 25/07/2014 sy'n ymateb i gyhoeddi Adolygiad 1af o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol. Mae'r llythyr Egluro Polisi yn cynghori o ystyried mai hyd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol yw 15 mlynedd, y byddai'n ddoeth pennu nad oes angen nodi dyraniadau newydd yn y cynlluniau datblygu ar gyfer banciau tir sydd eisoes wedi darparu mwy na 25 mlynedd o gloddio agregau. Mae hyn yn hytrach na'r 20 mlynedd a nodir ym mharagraff 49 o Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1.

4.6 Roedd y llythyr egluro hefyd yn cynghori bod y dull o gyfrifo banciau tir gan ddefnyddio cyfartaledd gwerthiant 10 mlynedd yn hytrach na chyfartaledd gwerthiant 3 blynedd yn briodol a bod y gwaharddiad o safleoedd segur o'r cyfrifiad banc tir yn briodol.

*Goblygiadau ar gyfer Sir Ddinbych: Creigiau Mâl*

4.7 Cyfnod Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych yw rhwng 2006 a 2021. Mae angen rhoi ystyriaeth felly i lefel y gofyniad am gerrig mâl dros y cyfnod hwn ac ar gyfer y 10 mlynedd tu hwnt i hynny, ac nid tan 2036. Mae’r gofyniad blynyddol ar gyfer cerrig mâl yn seiliedig ar ddosraniad blynyddol o 0,89 miliwn tunnell y flwyddyn. Rhwng 2011 a 2021 mae hyn yn cyfateb i ofyniad am 8.9 miliwn o dunelli, a thros gyfnod o 20 mlynedd (tan 2031) mae hyn yn cyfateb i 17.8 miliwn tunnell, sy’n llawer is na'r banc tir 22.07 miliwn sydd ar gael (hyd at 31 Rhagfyr 2010).

4.8 **Ystyrir felly nad oes angen i nodi dyraniad ar gyfer cerrig mâl yn y Cynllun Datblygu Lleol ar hyn o bryd.** Fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei fonitro trwy'r broses o Fonitro’r Cynllun Datblygu Lleol yn flynyddol i sicrhau, os bydd angen yn codi y gellir dyrannu, neu, fel arall, archwilio a fyddai’n briodol cydweithio â Chonwy sydd â gwarged sylweddol o gerrig mâl. Ystyrir yn bosibl y bydd angen dyraniad o gerrig mâl yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol nesaf, er y bydd hyn yn dibynnu ar sawl ffactor fel y gyfradd o’r echdynnir y graig a'i werthu o chwareli yn Sir Ddinbych, y sefyllfa gynllunio chwareli yn Sir Ddinbych ac os y cytunir i gydweithio â Chonwy.

4.9 Ar ben hynny, ym marn y Swyddog, mae'r polisi presennol yn gallu delio â cheisiadau i gloddio mwynau heb eu diwygio o ystyried y geiriad a geir ym meini prawf (ii) a (iii). Argymhellir bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn mabwysiadu datganiad o’r sefyllfa sy’n cydnabod y newid mewn cyngor ar lefel rhanbarthol a pham yr ystyrir nad oes angen cymryd unrhyw gamau ar hyn o bryd.

*Tywod a Graean*

4.10 Nododd Datganiad Technegol Rhanbarthol 2009 yr angen am dywod a graean trwy broses y Cynllun Datblygu Lleol a nodwyd bod Ardal a Ffefrir sy'n fwy na 220ha, lle cefnogir o bosib geisiadau i echdynnu hyd at 1 miliwn tunnell o dywod a graean o dan bolisi HEG17 yn amodol ar nifer o brofion, gan gynnwys anghenion. Mae Adolygiad 1af o’r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn pennu angen am 2.2 miliwn o dunelli dros gyfnod o 25 mlynedd o gymryd yn ganiataol bod y banc tir presennol yn 0, heb gynnwys cronfeydd wrth gefn a ganiateir o Chwarel Maes y Droell sef chwarel tywod silica sydd ag allbwn o gymwysiadau diwydiannol ac felly nid yw'n cael ei ddosbarthu fel chwarel agregau.

4.11 Gan dybio bod yr angen rhanbarthol ar gyfer tywod a graean yn seiliedig ar y ddarpariaeth hon a bod gwerthiant tywod a graean mewn mannau eraill o’r rhanbarth yn y gorffennol yn arwain at fanc tir damcaniaethol negyddol yn Sir Ddinbych, dylid gwneud darpariaeth dros y cyfnod 2011-2021 (yn ogystal â 7 mlynedd). Felly, dros gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol dylid gwneud darpariaeth ar gyfer 1.7 miliwn o dunelli o dywod a graean. Mae Polisi HEG 17 eisoes yn darparu diffyg yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (0.1 miliwn tunnell erbyn diwedd 2014). Fodd bynnag, ystyrir bod digon o le yn yr ardal a ffefrir a nodir ar y mapiau o’r cynigion i gwrdd â'r angen ychwanegol a nodwyd yn yr Adolygiad 1af o’r Datganiad Technegol Rhanbarthol. Os daw i’r amlwg mai nid dyma’r achos yna byddai angen adolygu'r polisi eto.

4.12 Bod geiriad meini prawf (iii) o bolisi HEG 17 yn nodi bod "Ceisiadau i echdynnu hyd at 1 miliwn tunnell o dywod a graean yn cael eu caniatáu mewn Ardaloedd a Ffefrir (a nodir ar y mapiau o'r cynigion) gan ystyried y meini prawf uchod. Mae Meini Prawf (ii) yn nodi *"Caniatau ceisiadau i echdynnu mwynau agregau dim ond pan fo angen cynnal y stoc o gronfeydd wrth gefn sydd wedi'u caniatau gan gymryd i ystyriaeth ffigurau dosraniad y Gweithgor Agregau Rhanbarthol.....".* Ym marn y Swyddog mae'r geiriad hwn yn cynnig digon o hyblygrwydd i alluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i ymateb i unrhyw gynnydd yn y galw.

4.13 Ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, ni dderbyniwyd unrhyw ddiddordeb yn Sir Ddinbych hyd yma i echdynnu tywod a graean. Ceir chwareli tywod a graean presennol o fewn y rhanbarth sy'n diwallu anghenion sy'n bodoli eisoes, felly, tra mae angen i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisi cenedlaethol, nid yw diwydiant wedi nodi angen dybryd yn y lleoliad hwn. Yn absenoldeb diddordeb gan y diwydiant bydd adnabod ardaloedd eraill neu ymchwiliad pellach i'r Ardal a Ffefrir presennol yn cael eu hystyried i fod yn ddi-angen. Fel yn achos cerrig mâl, argymhellir bod y mater hwn yn cael ei adolygu trwy broses o fonitro blynyddol.

## 5. Argymhelliad

5.1 Bod yr aelodau yn cytuno ar y datganiad sefyllfa canlynol:

**Datganiad Sefyllfa**

Nid oes angen i nodi dyraniad ar gyfer cerrig mâl yn y Cynllun Datblygu Lleol oherwydd y banciau tir presennol yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol a fyddai'n cwrdd â'r angen am gerrig mâl tan 2035. Bydd y mater hwn yn cael ei adolygu os bydd angen yn codi i sicrhau y gellir adnabod dyraniad neu, fel arall, i edrych a fyddai gweithio ar y cyd â Chonwy yn briodol.

Rhaid i unrhyw ofyniad ychwanegol am dywod a graean a nodwyd yn yr Adolygiad 1af o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol gael ei ddiwallu drwy bolisi ABCh 17. Os mewn unrhyw sefyllfa mai nid dyma'r achos bydd y polisi yn cael ei adolygu.

Atodiad 1: Detholiad o'r DTRh ac Adolygiad 1af o’r DTRh

Dyfyniad o Ddatganiad Technegol Rhanbarthol 2009 (tudalen 76)

**Recommendation:**

On the basis of the information available on permitted reserves and in the light of MTAN1 policy (para 49), and applying Method A and Method B apportionment, no rock resource allocation is required at present. However, in preparing Local Development Plans, consideration should be given to whether the factors in (para 4.16) above give rise to any requirement for resource allocations.

An allocation of 1.0 Mt sand and gravel in the Denbighshire LDP to cover at least a 12 year period should be made in liaison with Flintshire and where possible, outside the AONB. Steps should be taken to maximise the use of CD&EW as aggregates.

Sand and gravel and rock (especially limestone) deposits should be safeguarded in the LDP.

Dyfyniad o Adolygiad 1af o’r DTRh 2014 (tudalen 17 o Atodiad A)

**Allocations required to be identified in the Local Development Plan**

In order to address the resulting shortfalls, new allocations totalling at least 2.2 million tonnes for sand & gravel and at least 0.18 million tonnes for crushed rock will need to be identified within the LDP. In practice, the crushed rock allocation will probably need to be significantly greater than this, in recognition of scale of extraction needed to justify a new planning application, even for an extension to an existing quarry.